# Mynd i'r Afael ag Anhrefn Hinsawdd

Canllaw ar gyfer cynghorau tref a chymuned


**Rhagymadrodd ....... 2**

**Sectorau a syniadau yn nhrefn yr wyddor ....... 6**

*Cemegau* ....... 6

*Ynni* ....... 8

*Cyllid* ....... 10

*Bwyd* ....... 12

*Natur* ....... 13

*Trafnidiaeth* ....... 18

*Dŵr* ....... 21

*Dim gwastraff* ....... 23

**Atodiad o enghreifftiau da ....... 29**

*Datgan Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol* ....... 29

*Ynni* ....... 30

*Cyllid* ....... 32

*Bwyd a Dŵr* ....... 33

*Casglu Sbwriel* ....... 34

*Natur* ....... 34

*Caffael* ....... 42

*Trafnidiaeth* ....... 42

*Dim Gwastraff* ....... 43

# Rhagymadrodd

## Newid yn yr Hinsawdd / anhrefn hinsawdd / cynhesu byd-eang, beth bynnag fyddwch chi'n ei alw, y ffaith yw ein bod ni mewn trafferth difrifol gyda chrynoadau nwyon tŷ gwydr ar eu huchaf ers 2 filiwn o flynyddoedd. Mae ein planed nawr 1.1 gradd Celsius yn gynhesach nag yr oedd ddiwedd yr 1880au a degawd 2011-2020 oedd y cynhesaf sydd wedi'i gofnodi.

Mae gwledydd o amgylch y byd eisoes yn profi canlyniadau'r newid yn yr hinsawdd, o'r tymereddau mwyaf erioed, tanau coedwig trychinebus, sychder eithafol a phrinder dŵr, bioamrywiaeth yn dirywio'n gyflym, lefelau'r môr yn codi, a chapiau iâ a rhewlifoedd yn dadmer.

Mae degawdau o wneud dim wedi'n gadael mewn sefyllfa ble mae rhaid i bawb ohonom nawr weithredu'n gyflym ac yn bendant. Mae gwyddonwyr yn dweud wrthym bod yn dal gennym siawns fach iawn o gadw'r cynnydd mewn tymheredd byd-eang i ddim mwy na 1.5 gradd Celsius a byddai hynny'n ein helpu i osgoi effeithiau gwaethaf un y newid yn yr hinsawdd, ond dim ond os gweithredwn ni nawr. Yn anffodus, mae'r cynlluniau hinsawdd cenedlaethol presennol ledled y byd yn annigonol, a rhagwelir y bydd gwresogi byd-eang yn cyrraedd 2.7°C erbyn diwedd y ganrif hon.

Mae'n amlwg bod gan y Deyrnas Unedig rôl allweddol i'w chwarae yn cyfyngu ar effeithiau gwaethaf y newid yn yr hinsawdd ac er mai cymharol fach ydyn ni o ran maint, rydyn ni ar hyn o bryd yn rhif 17 ar restr o allyriadau byd-eang fesul gwlad.

Yma yng Nghymru, lansiodd Llywodraeth Cymru eu cynllun Cymru Sero Net ym mis Hydref 2021. Dan Deddf yr Amgylchedd Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad ar gyfer cyfnod pob cyllideb yn amlinellu eu polisïau a'u cynigion ar gyfer cadw at y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw. Mae Cynllun Cymru Sero Net yn amlinellu sut y mae Cymru'n bwriadu cyrraedd yr ail gyllideb garbon (2021-2025).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi amlinellu cynlluniau ar gyfer cael y sector cyhoeddus yng Nghymru i gyrraedd sero net o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2030 yn eu dogfen 'Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru'.

Mae'r argyfwng natur a bioamrywiaeth lawn cyn bwysiced ag argyfwng yr hinsawdd ond nid yw wedi denu hanner cymaint o sylw eto. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod tua miliwn o rywogaethau anifeiliaid a phlanhigion dan risg o ddifodiant oherwydd ein gweithgareddau ni. Mae poblogaethau anifeiliaid byd-eang eisoes wedi cwympo 68% ar gyfartaledd ers 1970.

Mae gwyddonwyr Y Cenhedloedd Unedig yn pwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael ag argyfyngau'r hinsawdd a bioamrywiaeth gyda'i gilydd.

Er bod llawer o fentrau cadarnhaol sy'n seiliedig ar natur yng Nghymru, mae adroddiad i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi pwysleisio'r ffaith mai ychydig iawn o gynefinoedd bywyd gwyllt Cymru sydd mewn cyflwr da.

Mae gan Gynghorau Tref a Chymuned bwerau unigol amrywiol, gan gynnwys darparu a chynnal cynlluniau cludiant cymunedol, mesurau arafu traffig,

prosiectau ieuenctid lleol, gweithgareddau twristiaeth, cyfleusterau hamdden, meysydd parcio, mannau gwyrdd cyhoeddus, cyfleusterau cyhoeddus, biniau sbwriel, goleuadau stryd, glanhau strydoedd, claddfeydd, rhandiroedd, cysgodfannau bws, tiroedd comin, mannau agored, llwybrau cerdded, llwybrau ceffylau, a mesurau i leihau troseddu.

At hynny, maent yn gallu gweithredu i wella safon bywyd i bobl leol a'u hamgylchedd lleol, ac mewn rhai achosion, gallant ddarparu gwasanaethau i fodloni anghenion lleol. Maent yn gallu chwarae rhan allweddol yn cynrychioli buddiannau eu cymunedau ac yn dylanwadu ar rai eraill sy'n gwneud penderfyniadau. Mae Llywodraeth Cymru yn annog Cynghorau Tref a Chymuned i ddarparu rhagor o wasanaethau a chwarae rôl fwy yn eu cymunedau.

O safbwynt y newid yn yr hinsawdd, mae cyfyngiadau wrth gwrs ar faint y gall Cynghorau Tref a Chymuned ei wneud, ond eisoes mae nifer o brosiectau a datrysiadau natur a hinsawdd cadarnhaol ar waith mewn cymunedau ledled Cymru.

Drwy weithio gyda'n gilydd ac annog arferion da gan drigolion yn eu cymunedau lleol, gall Cynghorau Tref a Chymuned wneud gwir wahaniaeth. Mae gofyn i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, sy'n cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, lunio adroddiad ar yr hyn maent wedi'i wneud er mwyn cydymffurfio â dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6.

Mae Un Llais Cymru a Chyfeillion y Ddaear Cymru wedi casglu syniadau ynglŷn â'r hyn y gall Cynghorau Tref a Chymuned ei wneud yn y frwydr yn erbyn anhrefn hinsawdd a dinistr natur. Bydd yr hyn y gall Cynghorau Tref a Chymuned gwahanol ei wneud yn dibynnu ar amryw o ffactorau wrth gwrs, felly rydym yn

cynnig y rhain fel syniadau. Gallai rhai fod yn fwy perthnasol na'i gilydd ac mae'n bosib y bydd rhai ohonynt wedi'u gwneud eisoes yn eich ardaloedd chi.

Mae rhai o'r syniadau yn bethau y gallwch eu gwneud fel Cynghorau Tref a Chymuned, gallai rhai olygu helpu a chefnogi'r mathau hyn o gynlluniau yn eich ardal leol ac mae'n bosib mai rôl yn rhannu gwybodaeth gyda thrigolion lleol fyddai fwyaf addas mewn rhai achosion, trwy gylchlythyron lleol, byrddau gwybodaeth neu ddigwyddiadau er enghraifft.

Os ydych chi'n awyddus i gael rhagor o syniadau a gwybodaeth am yr hyn y gall unigolion a chymunedau ei wneud, ewch i'r wefan hon.

# Sectorau a syniadau yn nhrefn yr wyddor

## Cemegau

### Beth yw'r problem?

Mae gan y diwydiant cemegau ei hun ôl-troed carbon byd-eang anferth ac mae'r cemegau eu hunain yn gallu cael effeithiau enfawr ar yr hinsawdd.

Ceir tystiolaeth hefyd sy'n awgrymu y gall rhai cemegau pob-dydd fod yn niweidiol a bod llawer o bobl heb fod yn ymwybodol o hyn.

### Syniadau ar gyfer gweithredu

#### Paent

Mae Community RePaint yn amcangyfrif bod 50 miliwn litr o'r 320 miliwn litr o baent a werthir yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn yn mynd yn wastraff. Maent nawr yn helpu pobl i gyfrannu a chael paent drwy rwydwaith o gynlluniau o amgylch y wlad.

Os oes gennych chi un yn eich ardal chi, allwch chi helpu i'w hyrwyddo i drigolion lleol? Os nad oes gennych un, ond yr hoffech gael un, cysylltwch â Community RePaint.

#### Plaladdwyr a chwynladdwyr

Mae llawer o chwynladdwyr yn cynnwys glyffosad a gallent gael effaith negyddol ar iechyd pobl a'r amgylchedd, gan gynnwys gwenyn mêl.

Gallwch chi weithredu yn eich cymuned drwy sicrhau na ddefnyddir glyffosad mewn parciau na mannau gwyrdd lleol. Mae yna ddewisiadau amgen (a hefyd yma).

Neu beth am anelu at fod yn Dref Heb Blaladdwyr? Mae Pesticide Action Network UK yn cynnal ymgyrch ddiddorol ac mae ganddynt lawer o syniadau da a gwybodaeth ynglŷn â sut i leihau'r defnydd o blaladdwyr.

Mae gan Gymdeithas y Pridd grynodeb defnyddiol ynglŷn a glyffosad.

Ffordd arall o fynd i'r afael â'r un heriau ydy dod yn gymuned sy'n Caru Gwenyn yn swyddogol.  Mae hyn yn ffordd hwyliog o annog mwy o weithredu i helpu gwenyn a pheillwyr eraill yn eich ardal.

### Gwrtaith

Os ydych chi'n gofalu am fannau gwyrdd lleol ac yn defnyddio gwrteithiau, ceisiwch sicrhau eu bod yn ddi-fawn ac yn organig. Mae cynhyrchu gwrtaith nitrogen, er enghraifft, yn broses ddwys o ran ynni sydd ag ôl-troed carbon fawr.

Mae rhai cymunedau wedi datblygu eu cynlluniau compostio cymunedol eu hunain. Allai hyn fod yn rhywbeth fyddai o ddiddordeb i drigolion yn eich ardal chi?

### Cynhyrchion glanhau

Mae'r cemegau a ddefnyddiwn yn ein cartrefi a'n hadeiladau yn gallu effeithio ar ein hiechyd mewn sawl ffordd.

Os ydych chi'n defnyddio cynhyrchion glanhau mewn unrhyw adeiladau, allwch chi symud tuag at ddefnyddio rhai amgylcheddol gyfeillgar?

### Meddyginiaethau

Mae hyn ychydig yn wahanol ond lawn cyn bwysiced. Mae CHEMTrust wedi canfod bod pysgod wedi'u halogi â'r bilsen atal cenhedlu, gwrth-iselyddion (fel Prozac), tawelyddion, gwrthfiotigau, poenladdwyr a chyffuriau gwrth-canser. Maent hefyd wedi canfod olion cyffuriau gwrthlidiol a phoenladdwyr mewn ffwr dyfrgwn.

Efallai y gallech chi roi sylw i'r mater hwn mewn cylchlythyr cymunedol ac annog pobl i fynd ag unrhyw feddyginiaethau sy'n hen neu heb eu defnyddio yn ôl i'r fferyllfa leol i gael eu gwaredu'n iawn yn hytrach na'u taflu i lawr y toiled neu eu hanfon i safle tirlenwi.

# Ynni

## Beth yw'r problem?

Mae tarddiad yr ynni a ddefnyddiwn yn newid yn gyflym. Yng Nghymru, daeth tua 56% o'r trydan a ddefnyddiwyd gennym o ffynonellau adnewyddadwy yn 2020.

Fodd bynnag, roedd cynhyrchu trydan a gwres yn dal yn gyfrifol am 16% o allyriadau hinsawdd Cymru yn 2020, sy'n golygu mai dyma'r ail sector fwyaf o ran allyriadau.

Un agwedd bwysig sy'n cael ei hanghofio'n aml ydy lleihau'r galw, sef lleihau faint o ynni sydd ei angen arnom. Os gallwn ni leihau'r galw drwyddi draw yna gallwn ni

hefyd leihau faint o ynni mae'n rhaid i ni ei gynhyrchu yn y lle cyntaf a lleihau allyriadau hefyd.

## Syniadau ar gyfer gweithredu

### Arbed ynni ac arian

Mae gan Ganolfan y Dechnoleg Amgen ym Machynlleth lawer o wybodaeth ac i gael golwg gynhwysfawr ar bob math o fesurau insiwleiddio ac arbed arian, edrychwch ar wefan y Ganolfan Ynni Cynaliadwy.

### Newidiwch i dariff gwyrdd

Efallai na fydd hyn yn berthnasol os nad ydych yn berchen ar unrhyw adeiladau neu gyfleusterau ond os ydych chi, newid i dariff ynni gwyrdd ydy un o'r pethau cyflymaf a mwyaf effeithiol y gallwch ei wneud.

Mae gan Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni lawer o wybodaeth dda.

### Cyfarpar

Os oes gennych adeilad a'ch bod yn cyrraedd y cam ble mae angen i chi gael cyfarpar newydd, chwiliwch am y rhai sydd â'r sgoriau ynni gorau. Mae gan Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a'r Ganolfan Ynni Cynaliadwy (CSE) lawer o wybodaeth dda.

### Mesuryddion clyfar

Mesuryddion clyfar ydy'r genhedlaeth nesaf o fesuryddion trydan a nwy. Maent yn mesur faint o drydan a nwy rydych chi'n eu defnyddio a faint mae hynny'n ei

gostio i chi. Os oes gennych adeilad eich hunan, mae gosod mesurydd clyfar yn gallu arbed arian.

Allech chi ddefnyddio'ch safle yn eich cymuned i annog eraill i'w cael wedi'u gosod hefyd?

Mae Smart Energy Gb yn amcangyfrif pe bai pawb yn y Deyrnas Unedig yn gosod mesurydd clyfar, gallem wneud arbedion C)2 blynyddol sy'n cyfateb i 70 miliwn o goed.

### Tai Gwyrdd Agored

Syniad Tai Gwyrdd Agored ydy caniatáu i bobl ymweld â'u cymdogion ac eraill yn eu cymunedau i gael gweld a chlywed am welliannau arbed ynni neu ynni adnewyddadwy y maent wedi'u gwneud. Mae'n gallu rhoi cipolwg gwerthfawr i bobl ar y ffordd y mae pethau'n gweithio'n ymarferol a chyfle i gael gwybod mwy am yr opsiynau a allai weithio iddyn nhw. Ydy hyn yn rhywbeth y gallech chi helpu i'w hwyluso yn eich ardal chi?

# Cyllid

## Beth yw'r problem?

Mae sut a ble y bydd sefydliad yn buddsoddi ei arian yn gallu bod yn un o'r ffactorau sy'n cyfrannu fwyaf at ei ôl-troed carbon. Mae'n elfen sy'n cael ei hanghofio neu ei hanwybyddu'n aml yn y frwydr yn erbyn anrhefn hinsawdd.

Er enghraifft, mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn dal i fuddsoddi miliynau o bunnoedd mewn cwmnïau tanwydd ffosil drwy eu cronfeydd pensiwn. Bydd

Cynghorau Tref a Chymuned sy'n talu i mewn i Gronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol (CPALl) eu rhanbarth yn rhan o hyn hefyd.

Mae ffigyrau o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn 2021 yn dangos bod gan yr 8 CPALl yng Nghymru £500miliwn wedi'i fuddsoddi mewn cwmnïau tanwydd ffosil.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y materion, y problemau sydd ynghlwm â pharhau i fuddsoddi mewn cwmnïau olew a nwy a beth y gellir ei wneud.

## Syniadau ar gyfer gweithredu

Un o'r pethau rhwyddaf y gall Cyngor Tref neu Gymuned ei wneud ydy gofyn yn ffurfiol i'w CPALl eu hunain osod targed ac amserlen ar gyfer datgarboneiddio buddsoddiadau pensiwn.

Mae gan y sector cyhoeddus yng Nghymru darged datgarboneiddio o gyrraedd sero net erbyn 2030. Mae'n ymddangos felly y byddai'n synhwyrol bod datgarboneiddio pensiynau'r sector cyhoeddus yn cyfateb i'r amserlen hon. Mae'r rhan fwyaf o gronfeydd pensiwn yn dal i gydio mewn amserlen ar gyfer 2050 fodd bynnag, felly gallen ni ganfod ein hunain mewn sefyllfa ble bydd cyrff cyhoeddus wedi cyrraedd sero net i bob pwrpas ar draws eu gweithgareddau erbyn 2030 ond yn parhau i fuddsoddi mewn cwmnïau tanwydd ffosil am hyd at 20 mlynedd arall ar ôl hynny.

# Bwyd

## Beth yw'r problem?

Mae'r bwyd rydym yn ei fwyta yn ychwanegu at ein hôl-troed carbon mewn amryw o ffyrdd ac yma yng Nghymru, mae amaethyddiaeth yn gyfrifol am oddeutu 15% o allyriadau Cymru.

Mae gwastraff bwyd yn broblem enfawr gyda thua 70% o'r holl wastraff bwyd yn dod o gartrefi. Mae'r bwyd hwn sy'n wastraff wedi cymryd llawer o ddŵr ffres, tir a llafur i'w gynhyrchu. Petai'n wlad, gwastraff bwyd fyddai yn y trydydd safle yn y byd o safbwynt allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae olew palmwydd yn broblem enfawr hefyd. Mae i'w gael mewn amrywiaeth aruthrol o gynnyrch, o fisgedi a chreision i gosmetigau a hufen iâ. Mae'n gadael ôl-troed carbon ac amgylcheddol enfawr.

### Gerddi cymunedol lleol

Sefydlu gardd gymunedol leol neu flychau ar gyfer planhigion bwytadwy yn eich ardal, ble gall trigolion a gwirfoddolwyr dyfu a defnyddio eu ffrwythau, llysiau a pherlysiau eu hunain. Mae hyn yn datblygu sgiliau yn y gymuned leol ac yn gallu helpu i ddatblygu llwybr cynhyrchu bwyd mwy integredig. Mae tyfu cymunedol sy'n gysylltiedig â Banciau bwyd neu Gynlluniau oergelloedd cymunedol yn ffordd dda o gael mwy o fwyd wedi'i gynhyrchu'n lleol a gweithio o fewn economi fwy cylchol. Mae cefnogaeth ar gael gan grwpiau fel: Incredible Edibles a ffermydd a gerddi cymdeithasol.

## Syniadau ar gyfer gweithredu

Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau fel cyngor, os ydych chi'n gyfrifol am arlwyo mewn unrhyw ddigwyddiadau, ceisiwch gefnogi cynhyrchwyr Cymreig lleol a phrynu'n lleol. Bydd symud tuag at ragor o ddewisiadau sy'n seiliedig ar blanhigion hefyd yn helpu i leihau eich ôl-troed carbon.

Bydd newidiadau llai yn helpu hefyd, a gallech chi ddechrau drwy brynu cynhyrchion heb olew palmwydd neu sy'n cynnwys olew palmwydd cynaliadwy. Gallech chi hyd yn oed weithio gyda phobl a grwpiau yn eich ardal leol i ddod yn Gymuned Olew Palmwydd Cynaliadwy swyddogol.

Mae pawb ohonom yn gwybod am Fasnach Deg erbyn hyn ac mae'n bwysig ein bod yn dal i gefnogi'r mudiad drwy brynu cynnyrch masnach deg fel siwgr a choffi.

Un newid hawdd a chyflym y gallwch ei wneud ydy newid i brynu bagiau te di-blastig yn unig neu newid i ddefnyddio te dail rhydd. Mae llawer o fagiau te yn dal i gynnwys plastig (Polypropylene).

Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau eto, mae nifer o gynlluniau bwyd lleol y gallech eu cefnogi neu eu hyrwyddo yn eich ardaloedd wrth gwrs, megis Grow to Give, compostio cymunedol, a pherllannau cymunedol.

Efallai y gallech chi gynnal digwyddiad i drigolion ynglŷn â sut i leihau gwastraff bwyd yn eu cartrefi.  Mae Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff yn lle gwych i fynd i gael rhagor o syniadau ac awgrymiadau defnyddiol. Allai oergell gymunedol fod yn rhywbeth y byddai eich cymuned yn ei gefnogi?

# Natur

## Beth yw'r problem?

Mae bioamrywiaeth o gwmpas y byd yn dirywio'n gynt nag y mae wedi ar unrhyw adeg arall yn hanes dynoliaeth. Er nad yw holl boblogaeth dynoliaeth yn ddim

mwy na 0.01% o'r holl greaduriaid byw, mae dynoliaeth eisoes wedi peri i'r byd golli 83% o'i holl famaliaid gwyllt a hanner ei holl blanhigion.

Fel y soniwyd uchod, er bod llawer o fentrau cadarnhaol sy'n seiliedig ar natur yng Nghymru, mae adroddiad i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi pwysleisio'r ffaith mai ychydig iawn o gynefinoedd bywyd gwyllt Cymru sydd mewn cyflwr da.

Mae argyfwng COVID-19 wedi amlygu hefyd bod rhai cymunedau mewn gwahanol rannau o Gymru yn dioddef o ddiffyg mynediad at fannau gwyrdd. Mae mannau gwyrdd yn cael eu cydnabod am eu pwysigrwydd i'n hiechyd meddwl a chorfforol, a chaiff hynny ei gydnabod yn y defnydd cynyddol o fannau gwyrdd trwy bresgripsiynau cymdeithasol gan weithwyr iechyd proffesiynol.

## Syniadau ar gyfer gweithredu

### Cynnal awdit o fannau gwyrdd lleol

Ble mae'r holl fannau gwyrdd cymunedol yn eich ardal chi? Sut gyflwr sydd arnyn nhw? Sut hoffech chi i'ch ardal edrych yn 2030 er enghraifft? A fyddai mwy o fannau gwyrdd neu ardd gymunedol neu berllan gymunedol er enghraifft?

Allai'r math yma o ardal helpu gyda dysgu yn yr awyr agored, llesiant, compostio cymunedol a thyfu cynnyrch iachus?

### Diogelu coed a mannau gwyrdd

Fel rhan o unrhyw 'awdit' o fannau gwyrdd lleol y byddech chi'n ei gynnal yn eich ardal, allech chi gynnwys unrhyw fannau sydd 'dan risg' y gwyddoch chi amdanynt

a chreu cynllun ar gyfer eu hachub? Mae gan Fields in Trust a'r Open Spaces Society lawer o wybodaeth ynglŷn â sut i amddiffyn a diogelu mannau gwyrdd.

Mae'n hollbwysig hefyd, wrth gwrs, ein bod yn diogelu coed a choetiroedd sydd gennym nawr ble bynnag y gallwn ni. Mae coed mewn amgylcheddau trefol yn arbennig yn wynebu bygythiad parhaus gan bwysau datblygu.

### Newid dulliau lladd gwair

Drwy newid rhagor o'ch mannau gwyrdd i fod yn laswelltir â chyfoeth o rywogaethau, gallwch chi helpu i gynyddu bioamrywiaeth, helpu peillwyr a chefnogi mamaliaid bychain a chreaduriaid di-asgwrn-cefn, a gwneud eich ardal yn wyrddach a phrydferthach. Mae newid trefniadau lladd gwair i'w wneud yn llai aml, a defnyddio dulliau torri a chasglu oll yn helpu i leihau rhywogaethau gwair trechol ac yn rhoi cyfle i flodau gwylltion brodorol gael tyfu a chwblhau eu cylch bywyd gan ddarparu cynefin hanfodol ar gyfer amryw o rywogaethau. Gweler gwefan Llywodraeth Cymru am ragor o fanylion.

Hefyd, ceir cynllun poblogaidd 'No Mow May' a gynhelir gan Plantlife, er bod ymchwil yn dangos mai ymestyn hyn i fis Mehefin a Gorffennaf sy'n rhoi'r budd gorau i beillwyr.
Mae'r gweirgloddiau blodau gwylltion newydd hyn yn gallu helpu i arafu dirywiad peillwyr a'n planhigion brodorol. Mae defnyddio'r dull torri a chasglu yn golygu nad oes angen chwynladdwyr na pharatoi'r tir felly mae'n llai ymwthiol ac yn well ar gyfer bioamrywiaeth sydd eisoes yn bodoli. Pan fyddwch yn defnyddio hadau i wella ardaloedd o weirgloddiau, ystyriwch hadau o ffynonellau lleol a dewiswch yr hadau iawn ar gyfer eich ardal.

### Plannu coed

Getting involved in local tree planting schemes in your local areas is a great way to start doing your bit on climate chaos.

Mae dod yn rhan o gynlluniau plannu coed lleol yn eich ardal yn ffordd wych o ddechrau gwneud eich rhan o ran anrhefn hinsawdd.

Mae gan Coed Cadw yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac maent yn rhoi pecynnau coed am ddim i sefydliadau fel ysgolion, meithrinfeydd, clybiau chwaraeon, clybiau ieuenctid, cynghorau cymuned a grwpiau cymunedol. Mae ganddynt ganllawiau hefyd ynglŷn â ble i'w plannu, sut i ofalu amdanynt, ac mae ganddynt wahanol fathau o becynnau coed megis 'cloddiau', 'cynhaeaf gwyllt' a 'trefol'. Os ydy hyn o ddiddordeb a'ch bod yn meddwl hefyd am geisio cael achrediad Caru Gwenyn, efallai y gallai'r pecynnau coed hyn fod yn rhan o'r prosiect hwnnw hefyd?

Mae'r Tree Council yn ffynhonnell gwybodaeth wych hefyd ac mae ganddynt gronfa grantiau y gallwch wneud cais iddi ar gyfer plannu coed yn eich cymuned neu yn eich ysgol. I gael llawer mwy o wybodaeth ynglŷn â sut i reoli coetiroedd a gwrychoedd, cymerwch olwg ar Coed Cymru.

Remember it's important to Plant the Right tree, in the Right Place, and for the Right reasons.

## Dod yn ardal sy'n Caru Gwenyn

Rhowch gymeradwyaeth i'n cyfeillion bach sy'n peillio!  Wedi'r cwbl, mae cnydau sy'n dibynnu ar beillwyr yn cyfrannu at 35% o gyfaint cynnyrch cnydau byd-eang, gan gynnwys nifer o gnydau ffrwythau, llysiau, hadau, cnau ac olewau.

Yng Nghymru, mae'n debyg mai ni sydd â'r cynllun achredu Caru Gwenyn cenedlaethol cyntaf a'r unig un. Y syniad tu ôl i'r cynllun ydy annog cymunedau, trefi, pentrefi, ysgolion, sefydliadau, addoldai a chyrff cyhoeddus i helpu i

ddiogelu gwenyn a pheillwyr eraill drwy gymryd camau gweithredu syml dan 4 thema wahanol. Mae wedi'i gynllunio i fod yn ffordd rwydd a hwyliog o gael rhagor o bobl i weithredu.

Mae rhai Cynghorau Tref a Chymuned o amgylch Cymru wedi cael eu statws Caru Gwenyn swyddogol eisoes. Ai chi fydd nesaf?

Ar nodyn tebyg, os ydych chi'n trefnu unrhyw sioeau blodau neu ffrwythau a llysiau yn yr haf, beth am gynnwys categori arbennig ar gyfer croesawu peillwyr?

## Dillad a thecstilau cynaliadwy

## Beth yw'r problem?

Mae'r diwydiant ffasiwn yn gadael ôl-troed carbon enfawr. Amcangyfrifir ei fod yn gyfrifol am oddeutu 10% o allyriadau nwyon tŷ gwydr y byd.

Yn rhyfeddol, mae'r diwydiant ffasiwn yn allyrru mwy o garbon na hedfaniadau rhyngwladol a llongau ar y môr gyda'i gilydd ac mae wedi'i restru fel yr ail ddiwydiant mwyaf budr yn y byd, nesaf at y diwydiant olew.

### Syniadau ar gyfer gweithredu

Gweithio gydag ysgolion lleol ar gynllun cyfnewid gwisgoedd ysgol

Mae gan amryw o ysgolion o gwmpas Cymru gynlluniau cyfnewid gwisgoedd ysgol eisoes. Mae rhai wedi ehangu hynny i gynnwys cyfnewid citiau chwaraeon yr ysgol hefyd. Ydy hyn yn rhywbeth y gallech weithio arno gyda'ch ysgol(ion) (l)leol?

### Digwyddiadau cyfnewid dillad

Allech chi weithio gydag eraill yn eich cymuned i gynnal neu drefnu digwyddiadau cyfnewid dillad neu 'swishio'?

# Trafnidiaeth

## Beth yw'r problem?

Roedd trafnidiaeth yng Nghymru yn gyfrifol am tua 15% o holl allyriadau hinsawdd Cymru yn 2020.

Mae'r rhan fwyaf o allyriadau'n dod o drafnidiaeth ar y ffyrdd, ac o geir yn benodol. A dweud y gwir, y car sy'n tra-arglwyddiaethu o ran trafnidiaeth yng Nghymru ac yn fwy felly nag mewn unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig.

Rydym yn gwybod nawr hefyd bod llygredd aer yn wael iawn mewn rhannau o Gymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'n gysylltiedig â 36,000 o farwolaethau cynamserol yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn (mae hynny'n fwy na gordewdra neu alcohol) a thua 1,400 yng Nghymru. Mae hynny'n amlwg yn cynyddu'r pwysau ar ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac amcangyfrifir ei fod yn costio £20biliwn y flwyddyn i economi'r Deyrnas Unedig.

Mae Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, Cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer trafnidiaeth Llywodraeth Cymru a strategaethau eraill yn amlinellu cynlluniau ar gyfer dyfodol trafnidiaeth yng Nghymru.

## Syniadau ar gyfer gweithredu

Er y bydd y rhan fwyaf o'r datrysiadau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn perthyn i lefelau eraill llywodraethu, mae nifer o ddatrysiadau mwy lleol y gallech helpu i'w hyrwyddo yn eich ardaloedd chi.

### Llygredd aer

Un syniad posib fyddai gweithio gyda'ch ysgolion a'ch meithrinfeydd lleol i greu parthau aer glân o gwmpas eu lleoliadau. Gallai hyn fod yn ffordd dda o helpu plant, rhieni, athrawon a thrigolion lleol eraill i ystyried ac i ddysgu mwy am faterion llygredd aer yn ogystal â'r heriau mwy eang fel anrhefn hinsawdd.

Efallai y gallai bws cerdded i'r ysgol a menter i gael llai o beiriannau ceir yn troi'n segur fod yn ffyrdd diddorol o gynnwys eich cymunedau chi. Cymerwch olwg ar Sustrans Cymru  a rhaglen ddogfen y BBC, Fighting for Air  i gael syniadau a Llywodraeth Cymru i gael rhagor o wybodaeth.

### Teithio llesol

Pa gyfleoedd sydd yn eich ardal leol chi i hyrwyddo a chefnogi teithio llesol?

Un peth y gall pob un ohonom ei wneud yma ydy gweithio yn ein hardaloedd lleol i helpu i sicrhau y rhoddir ystyriaeth nid yn unig i lwybrau seiclo, ond i'r seilwaith seiclo cysylltiedig hefyd, megis cyfleusterau parcio beiciau sy'n gyfleus, yn ddiogel, yn hygyrch ac yn ddigonol.

Un gŵyn barhaus ynglŷn â chael mynediad i fannau gwyrdd lleol ydy sut mae modd cyrraedd yno'n ddiogel ac yn gyfleus. Ydy trafnidiaeth gyhoeddus yn gwasanaethu'r mannau gwyrdd yn eich ardal chi? A oes darpariaeth ar gyfer storio beiciau yn ddiogel er enghraifft? A oes llwybrau cerdded a theithio llesol diogel i'r mannau gwyrdd?

Efallai y gallech chi weithio gyda Wheels for All i sicrhau bod darpariaeth hefyd ar gyfer y rhai sydd ag anableddau ac anghenion gwahanol.

Mae teclyn Propensity to Cycle yn nodi potensial enfawr ar gyfer cynyddu seiclo ym mhob rhan o'r wlad, yn arbennig drwy gael seilwaith o ansawdd da, megis llwybrau seiclo ar wahân a pharcio i feisiau, a thrwy ddefnyddio E-feiciau.

### Rhannu ceir a rhannu lifft

Mae'n bosib, wrth gwrs, bod Covid-19 yn parhau i gael effaith ar allu neu barodrwydd pobl i rannu ceir neu rannu lifft ond gobeithio y bydd yr opsiynau hyn yn dod yn fwy deniadol i bobl eto yn y dyfodol.

Mae ffigurau'n awgrymu y gall rhannu ceir er enghraifft arbed arian i deuluoedd ac i yrwyr sy'n defnyddio car am lai na 6,000 i 8,000 o filltiroedd yn flynyddol, gall clwb ceir arbed hyd at £3,500 y flwyddyn.

Gall y cynlluniau hyn hefyd helpu i leihau ôl troed carbon gyrrwr gyda cherbyd clwb ceir yn arbed 1.392 tunnell o garbon bob blwyddyn ar gyfartaledd. Mae gan Sustrans lawer o wybodaeth am y cynlluniau amrywiol.

Mae'r cynlluniau hyn yn gallu helpu i leihau ôl-troed carbon gyrwyr hefyd, gyda cherbyd clwb ceir yn arbed 1.392 tunnell o garbon y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae gan Community Car Share lawer o wybodaeth am y cynlluniau amrywiol.

Mae rhannu lifft yn opsiwn arall ac mae gan Traveline Cymru syniadau a dolenni. Allech chi rannu'r syniadau hyn a'r wybodaeth mewn cylchlythyr cymunedol, er enghraifft, i weld a fyddai gan drigolion lleol ddiddordeb mewn sefydlu un o'r rhain?

# Dŵr

## Beth yw'r problem?

Gall Cymru fod yn lle gwlyb iawn! Rydym i gyd yn gwybod hynny.

Yng Nghymru, mae'r glawiad ar gyfartaledd yn 1.4m y flwyddyn, sy'n cyfateb i daldra plentyn 8 oed arferol yn gorchuddio Cymru gyfan.

Beth sy'n llai gwybyddus efallai ydy mai'r diwydiant dŵr ydy'r sector sydd bedwerydd o ran dwyster defnydd ynni yn y Deyrnas Unedig ac mae Waterwise yn amcangyfrif bod y diwydiant yn gyfrifol am oddeutu 1% o allyriadau carbon y Deyrnas Unedig.

Rydym yn clywed llawer o sôn am 'dlodi tanwydd' ond yma yn y Deyrnas Unedig, mae oddeutu 1.5 miliwn o gartrefi yn byw mewn 'tlodi dŵr', a 3 miliwn arall yn ymylu ar hynny. Yn erbyn y cefndir hwnnw, daw hyd yn oed yn fwy angenrheidiol i ni edrych ar fesurau arbed dŵr.

Mae'n faes y gall pob un ohonom helpu'n rhwydd ac yn gyflym drwy leihau faint o ddŵr rydym yn ei ddefnyddio (ac yn ei wastraff), a thrwy hynny, helpu i leihau ein hôl-troed carbon, arbed arian yn ein cartrefi a diogelu ein hadnoddau dŵr.

## Syniadau ar gyfer gweithredu

### Mesurau arbed dŵr

Os ydych chi'n gyfrifol am unrhyw adeiladau, a oes ganddynt fesurau arbed dŵr?

Allech chi ddefnyddio'ch safle yn y gymuned i siarad ag eraill am yr hyn y gallant ei wneud a'u cyfeirio at ragor o wybodaeth?

Er enghraifft, mae Dŵr Cymru yn cynnig gwasanaeth archwiliadau effeithlonrwydd dŵr i fusnesau ac yn cynnig ymweliadau addysgol i ysgolion hefyd.

Ar gyfer rhai Cynghorau TaCh, efallai bod cynaeafu dŵr glaw a systemau dŵr llwyd o ddiddordeb. Mae gan Waterwise nifer o syniadau.

### Mannau ail-lenwi dŵr

Mae Water Uk yn amcangyfrif bod '7.7 miliwn o boteli dŵr plastig yn cael eu defnyddio bob blwyddyn yn y Deyrnas Unedig, gyda phob unigolyn yn y Deyrnas Unedig ar gyfartaledd yn defnyddio 150 o boteli dŵr plastig y flwyddyn nawr'.

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau mai Cymru fydd 'Cenedl Ail-lenwi' gyntaf y byd. Os ydych chi eisiau gweithio gydag eraill yn eich

ardal ar hyn a dechrau eich prosiect ail-lenwi eich hun, mae'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch yma.

### Plannu coed

Ar raddfa fwy, mae symudiad cynyddol tuag at ddefnyddio mwy o gynlluniau Rheoli Llifogydd Naturiol i helpu i leddfu rhai risgiau o lifogydd, gan gynnwys plannu mwy o goed.

Er bod angen i hyn gael ei wneud gan arbenigwyr mewn ardaloedd a bennir yn ofalus, yn eich cymunedau chi, gallwch chi'n sicr helpu drwy drefnu neu ymuno â chynlluniau plannu coed lleol neu fentrau mannau gwyrdd eraill.

# Dim gwastraff

## Beth yw'r problem?

Yng Nghymru, roedd gwastraff yn gyfrifol am 3% o'r allyriadau hinsawdd cenedlaethol yn 2020. Dros y 40 mlynedd diwethaf, mae cynhyrchu plastigau yn fyd-eang wedi cynyddu i fod bedair gwaith yn fwy. Mae'r symudiad tuag at economi gylchol yn rhan allweddol o'r frwydr yn erbyn anrhefn hinsawdd.

### Gwastraff bwyd

Mae gwastraffu bwyd yn wael i'r amgylchedd - gan gynnwys yr hinsawdd. Rydym yn gwastraffu tua thraean o'r holl fwyd a gynhyrchir ar gyfer ei fwyta gan bobl. Mae'r bwyd hwn sy'n wastraff wedi cymryd llawer o ddŵr ffres, tir a llafur i'w

gynhyrchu. Petai'n wlad, gwastraff bwyd fyddai yn y trydydd safle yn y byd o safbwynt allyriadau nwyon tŷ gwydr.

### Papur

Mae gan bapur ôl-troed carbon sy'n syndod o fawr ond yn aml, caiff ei anghofio pan fyddwn yn siarad am wastraff ac adnoddau. Mae gan yr Environmental Paper Network (EPN) fideo fach wych sy'n esbonio'r sefyllfa.

Mae llawer o bapur yn cael ei ddefnyddio mewn modd gwastraffus, ac mewn ychydig wythnosau yn unig, gall carbon o goedwig gael ei dorri, ei fathru, ei gludo, ei ddefnyddio a'i daflu i'r atmosffer.

## Syniadau ar gyfer gweithredu

### Cynhaliwch awdit gwastraff

Mae ailgylchu'n grêt, ond mae peidio â phrynu na defnyddio'r stwff yn y man cyntaf yn amlwg yn well fyth (ac yn arbed arian). Lle da i ddechrau fyddai cynnal awdit o'r holl bethau rydych yn eu prynu a'u defnyddio. A oes angen i chi eu prynu? Os oes, a oes cyfle i brynu pethau gwahanol, er enghraifft rhai y gellir y hailddefnyddio yn hytrach na'u defnyddio unwaith yn unig?

### Casglu sbwriel

Ffordd rwydd a chyflym o wneud i ardal deimlo'n wahanol iawn ydy cynnal sesiwn casglu sbwriel. Mae'n digwydd bod yn ffordd ragorol o ddatblygu cysylltiadau rhwng pobl a grwpiau hefyd ac mae'n helpu i ysgogi diddordeb ym materion ehangach plastigau a gwastraff. Ydy hyn yn rhywbeth y gallwch ddod yn rhan

ohono yn lleol, neu hyd yn oed ddechrau sesiynau casglu sbwriel os nad oes rhai ar waith eisoes?

Dyma gynghorion defnyddiol ar gyfer trefnu sesiwn casglu sbwriel. Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gallu'ch helpu chi gyda chyfarpar, cyngor, syniadau a gwybodaeth ynglŷn â sut i sicrhau bod eich sesiynau casglu sbwriel yn llwyddiannus.

## Cymuned Ddi-blastig

Mae cynllun Cymunedau Di-blastig Surfers Against Sewage wedi bod yn llwyddiant ysgubol ers i Penzance ddod yn dref ddi-blastig gyntaf y Deyrnas Unedig ym mis Rhagfyr 2017.

Mae nifer o enghreifftiau gwych eisoes o gymunedau yn dod ynghyd yng Nghymru i fod yn 'ddi-blastig', o Riwbeina yng Nghaerdydd ac Ynys Môn i Aberporth a Chaerffili.

Os nad yw'ch ardal chi eisoes yn un o gymunedau 'Di-blastig' SAS, efallai y gallai hynny fod yn beth da i anelu ato er mwyn helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth? Cysylltwch â SAS i gael gwybodaeth a chymorth.

## Caffi Trwsio

Mae Caffi Trwsio Cymru wedi bod yn agor, cynnal a chefnogi caffis trwsio ers mis Ebrill 2017. Maent yn ffordd wych o ddwyn cymunedau ynghyd, arbed arian i bobl a lleihau gwastraff.

Os ydych chi'n awyddus i ddechrau Caffi Trwsio yn eich ardal chi, yna cysylltwch â Chaffi Trwsio Cymru a fydd yn gallu'ch helpu chi i roi cychwyn arni.

## Economi rhannu lleol

Mae'r Economi Rhannu yn tyfu o amgylch y byd gyda Llyfrgelloedd Pethau neu 'Lotiau' yn dod yn boblogaidd. Yng Nghaerdydd, mae menter sy'n dwyn yr enw Benthyg wedi cael ei sefydlu yn Tredelerch i ddarparu'r gwasanaeth hwn i'r gymuned leol.

Mae'r tîm yn Benthyg yn gallu'ch helpu chi i sefydlu cynllun tebyg yn eich ardal chi os ydych chi'n awyddus i ddechrau un.

Mae plant yn tyfu mor gyflym, a theganau'n gallu bod yn ddrud iawn. Mae llyfrgelloedd teganau yn adnodd ardderchog i gymunedau lleol, maent yn lleihau gwastraff, yn arbed arian ac yn helpu i ddod â chymunedau at ei gilydd.

Cysylltwch â Play Wales Chwarae Cymru i gael rhagor o wybodaeth am lyfrgelloedd teganau a sut i sefydlu un.

## Gwastraff bwyd

Mae Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff yn gadu'ch helpu chi a'ch cymuned i leihau eich gwastraff bwyd. Ydy hyn yn rhywbeth y gallech ei hyrwyddo i drigolion yn eich ardal chi?

Oergelloedd Cymunedol

Mae'r rhain yn ffordd wych o rwystro bwyd da rhag cael ei roi yn y bin. Maent yn cael eu cadw mewn mannau cyhoeddus, hygyrch, ac yn sicrhau bod bwyd darfodus sydd dros ben ar gael am ddim i aelodau'r cyhoedd. Darperir y bwyd sydd dros ben gan fusnesau lleol neu aelodau o'r cyhoedd ac yna mae ar gael i bobl o'r gymuned. Maent yn gweithio ar sail gonestrwydd.

I gael gwybod mwy am oergelloedd cymunedol, gweld 'Canllaw Sut i Wneud' ynglŷn â sefydlu un, fideo hyfryd a map defnyddiol, ewch i gael golwg yn Hubbub.

### Terracycle

Mae TerraCycle yn gwmni sy'n arbenigo mewn casglu ac ailgylchu cynnyrch sy'n arfer bod yn anodd eu hailgylchu fel peniau, capsiwlau coffi, stympiau sigaréts a phecynnau creision. Maent yn cynnig cyfle i bobl a grwpiau ddod yn ganolfannau casglu ar gyfer deunyddiau gwahanol ac yn gyfnewid, maent yn cyfrannu arian i elusen neu elusennau o'ch dewis. Ydy hyn yn rhywbeth yr hoffech chi fod yn rhan ohono yn lleol? Mae Sara Lewis yn un o blith llawer o bobl o gwmpas Cymru sy'n cymryd rhan eisoes ac mae hi'n ennill arian i'w hysgol leol.

Mynd i'r afael â gwastraff papur

Mae nifer o bethau y gallwch eu gwneud, o newid unrhyw gynnyrch papur rydych yn eu defnyddio fel cyngor a naill ai peidio â'u defnyddio o gwbl neu eu cyfnewid am bapur wedi'i ailgylchu (unrhyw beth o bapur swyddfa i bapur tŷ bach). Rhywbeth arall y gallech ei wneud i helpu ydy rhannu'r neges ymhlith trigolion eich ardal chi a'u hannog i arwyddo i wasanaeth gan y Post Brenhinol sy'n eich galluogi i atal unrhyw bost Drws i Ddrws heb gyfeiriad arno rhag cael ei roi trwy'ch drws chi. Mae gan Cyngor ar Bopeth lawer o syniadau eraill a dolenni i'ch helpu chi i leihau post diangen.

Rydym yn gobeithio bod rhai o'r awgrymiadau hyn yn rhoi syniadau neu ysbrydoliaeth i chi ar gyfer rhai o'r pethau y gallech eu gwneud yn eich ardaloedd chi. Nid dyma'r unig bethau y gallech eu gwneud ar unrhyw gyfrif, wrth gwrs.

Yn ogystal â'r syniadau a'r datrysiadau cadarnhaol hyn, mae'n bwysig hefyd i chi ddefnyddio'ch llais i wrthwynebu unrhyw gynigion lleol sy'n ddwys o ran defnydd carbon neu'n niweidiol i natur.

Mae'n bwysig eich bod yn defnyddio'ch rôl yn y system gwneud penderfyniadau leol a'r system gynllunio leol i helpu i hyrwyddo penderfyniadau a datrysiadau sy'n llesol i'r hinsawdd ac i natur ble bynnag a phryd bynnag y bo modd.

Yn yr atodiad, fe welwch enghreifftiau o gamau y mae Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru yn eu gweithredu ar yr hinsawdd a natur mewn ymgais i ddangos sut y gall pawb gyfrannu at daclo argyfwng yr hinsawdd a natur.

# Atodiad o enghreifftiau da

Mae'r atodiad hwn yn darparu enghreifftiau o gamau y mae Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru yn eu gweithredu ar yr hinsawdd a natur mewn ymgais i ddangos sut y gall pawb gyfrannu at daclo argyfwng yr hinsawdd a natur. Mae gweithredu ar lefel leol yn hanfodol er mwyn cyflawni Sero Net erbyn 2050. Mae mwy na hanner y toriadau mewn allyriadau sydd eu hangen yn dibynnu ar gael unigolion a busnesau i fabwysiadu datrysiadau carbon-isel. Penderfyniadau a wneir ar lefel leol a lefel unigolion ydy'r rhain.

Mae'r dyletswyddau a'r pwerau sydd ar gael i Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth yn dod dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cynghorau â phraesept o £200k a mwy) ac Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Rhaid i bob Cyngor Tref a Chymuned gyhoeddi adroddiad ar ei weithgareddau dan Adran 6 yr ail o'r Deddfau hyn.

## Datgan Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol

### Cyngor Tref Llangollen

Datganodd y Cyngor ei bod yn argyfwng hinsawdd ac ecolegol yn 2020 ac mae wedi mabwysiadu cynllun o ganlyniad i hynny. Mae gweithredu i liniaru'r newid yn yr hinsawdd yn nod yn ei Gynllun Bro.

### Cyngor Cymuned Offa

Mae Cyngor Cymuned Offa yn gwbl gefnogol i waith Cyngor Wrecsam a wnaeth ddatganiad o Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol ym mis Medi 2019 ac mae'n cydnabod bod angen i bawb ohonom weithredu er mwyn lliniaru effeithiau'r

newid yn yr hinsawdd ar ein cymuned, ein gwlad a'n planed. Mae'r Cyngor yn cydnabod ein bod mewn argyfwng hinsawdd. Mae Strategaeth Carbon Niwtral 2021-2030 wedi'i llunio fel ymateb i 'Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru'.

Y pedwar maes allweddol sydd wedi'u mabwysiadu ydy Adeiladau, Symudedd a Chludiant, Defnydd Tir, a Chaffael ac maent wedi'u gosod mewn cynllun hirdymor. Mae'r her Carbon yn golygu bod angen i bawb wneud eu rhan. Mae Cyngor Cymuned Offa yn awyddus i wneud ei ran fechan yn lleihau ei ôl-troed carbon drwy weithio gyda'i holl drigolion a phartneriaid. Mae gan Gyngor Cymuned Offa 18 o aelodau; mae pob un o'r 18 wedi ymrwymo i weithio yn amgylcheddau eu Cyngor a'u cartrefi i geisio lleihau eu hôl-troed carbon personol.

### Cyngor Cymuned Pennard

Datganodd y Cyngor ei bod yn Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol yn 2019 ac mae wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol sydd wedi cael mewnbwn gan y gymuned.

## Ynni

### Cyngor Cymuned Gwersyllt

Enillodd prosiect goleuadau stryd LED Cyngor Cymuned Gwersyllt wobr Un Llais Cymru ar gyfer 'Menter Gynaliadwyedd Orau' 2019. Fel un o'r Cynghorau Cymuned mwyaf yn Wrecsam, mae Gwersyllt yn gobeithio ysbrydoli awdurdodau lleol eraill i ddilyn ei esiampl a symud tuag at ddarparu Goleuadau Stryd LED.

Yn ystod 2017/18, uwchraddiodd y Cyngor ei holl unedau goleuo stryd gydag unedau mwy modern mewn ymdrech i leihau ei ddefnydd blynyddol o ynni a'r costau cysylltiedig, ynghyd â lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Yn lle 490 o lanterni oedd wedi dyddio, gosodwyd unedau goleuo LED hynod effeithlon 25W, sy'n lleihau'r ynni a ddefnyddir heb amharu ar ansawdd y goleuo. Drwy wneud y newid, gostyngodd allyriadau nwyon tŷ gwydr y Cyngor hefyd, gan wneud arbedion blynyddol o tua 31 tunnell o Co2e, sy'n gyson â nod y Cyngor o gyfrannu at gymdeithas carbon-isel. Yn ogystal â'r arbedion ariannol hynny, mae'r gwelliannau wedi lleihau costau cynnal a chadw. Maent hefyd yn darparu goleuo o ansawdd gwell ym mhob rhan o'r gymuned, gan helpu i wella diogelwch a lles.

Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at y nod o fod yn gyfrifol dros y ddaear drwy greu cymdeithas sy'n effeithlon yn ei defnydd o adnoddau ac yn garbon-isel. Yn ogystal, bydd yn cyfrannu at "Gymru o gymunedau cydlynus" drwy sicrhau bod Gwersyllt yn datblygu cymuned ddeniadol, hyfyw, ddiogel sydd â chysylltiadau da.

Manteisiodd y Cyngor ar fenthyciad di-log o £81,000 gan Salix Finance ynghyd â'u cyngor a'u harweiniad arbenigol. Mae'r benthyciad hwnnw'n cael ei dalu'n ôl dros wyth mlynedd o'r arian sy'n cael ei arbed oherwydd y biliau ynni rhatach. Pan fydd y Cyngor wedi ad-dalu'r benthyciad, bydd yn gallu ailfuddsoddi'r arbedion mewn gwasanaethau mewn meysydd eraill.

## Cyngor Tref Llandeilo

Grant ar gyfer paneli solar i'w gosod ar y Pafiliwn Bowls yn y parc cyhoeddus i dalu costau'r goleuadau a'r camerâu a ddefnyddir yn y parciau. I ddilyn hyn, mae pwyntiau trydan yn cael eu gosod ar y pafiliwn ynghyd â phwyntiau gwefru beiciau trydan drwy Grant 'Y Deg Tref' gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

### Cyngor Cymuned Llanfrynach

Mae Cyngor Cymuned Llanfrynach (De Powys) wedi llunio adroddiad Bioamrywiaeth. Defnyddir gorsaf disg dwbl ar gyfer storio yn hytrach nag icloud sy'n drwm iawn o ran defnydd ynni.

### Cyngor Tref Llangollen

Mae'r Cyngor wedi symud at Good Energy, sy'n un o gyflenwyr trydan adnewyddadwy 100% cyntaf y Deyrnas Unedig, ac mae'n parhau i osod goleuadau LED yn ei stoc o oleuadau.

### Cyngor Cymuned Pennard

Mae'r holl ynni a ddefnyddir wedi'i newid i 100% adnewyddadwy.

### Cyngor Cymuned Solfach

Mae gan adeilad y clwb baneli PV a batri er mwyn lleihau'r defnydd o danwydd carbon ac maent yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gael fferm PV ar y maes awyr lleol. Mae 18 uned o gartrefi cynaliadwy sy'n ddi-garbon.

## Cyllid

### Cyngor Tref Llangollen

Mae'r Cyngor wedi symud tuag at wasanaethau bancio mwy moesegol a ddarperir gan Fanc Unity Trust ac mae'n cynnig cymorth ariannol i brosiectau sy'n cyfrannu tua at leihau ôl-troed carbon drwy'r rhaglen grantiau cymunedol.

### Cyngor Cymuned Pennard

Mae Pensiwn y Clerc wedi'i symud i gronfa heb danwydd ffosil.

## Bwyd a Dŵr

### Cyngor Cymuned Pennard

Drwy lwyfan VocalEyes, mae'r Cyngor wedi gosod ffynnon dŵr yfed i bobl gael ail-lenwi eu poteli ac mae'n gweithio gyda'r gymuned i leihau gwastraff.

### Cyngor Cymuned Offa

Mae'r Cyngor yn cydweithio ac yn cynnal cyswllt â dwy ysgol.

Mae gan yr ysgol uwchradd, Ysgol Clywedog, eco-dasglu hynod ragweithiol gyda niferoedd da yn mynychu. Maent yn tyfu llysiau i'w rhannu â theuluoedd a'r staff, maent wedi plannu coed brodorol ar dir yr ysgol i fod yn ffynhonnell bwyd ar gyfer eu gwenyn brodorol sy'n ddatblygiad newydd eleni. Caiff y gwaith ei hyrwyddo yng nghylchgrawn y cyngor cymuned. Mae gan yr ysgol dudalen Facebook hefyd a chaiff honno ei hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol Offa. Mae hyn yn gweithredu ar nod y Cyngor o weithio fel dylanwadwyr.

Mae gan yr ysgol gynradd, sy'n bwydo Ysgol Clywedog, eco-bwyllgor ac mae aelod o'r cyngor cymuned yn mynychu. Mae cynllun wedi'i lunio ar gyfer gwella'r gofod cyhoeddus sydd nesaf at yr ysgol. Mae'r plant wedi llunio cynlluniau ar gyfer tyfu planhigion bwytadwy, blodau gwyllt brodorol, a chynefinoedd i drychfilod, yn ogystal â gerddi trychfilod ar gyfer peillwyr. Mae'r cyngor cymuned

wedi addo gweithio gyda'r ysgol er mwyn gwireddu'r cynlluniau hyn. Mae'r cyngor yn gweithio hefyd gyda phrosiect Bwydydd Anhygoel Wrecsam i gynnal a chadw'r ardal ac maent yn aelod o'r grŵp.

# Casglu Sbwriel

## Cyngor Cymuned Llangynidr

Mae'r Cyngor yn trefnu 3 i 4 o sesiynau casglu sbwriel gyda gwirfoddolwyr lleol bob blwyddyn.

# Natur

## Cyngor Cymuned Amroth

Mae cyllid a chymorth ymarferol gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro a chronfeydd Cadwch Gymru'n Daclus yn helpu i hyrwyddo Bioamrywiaeth. Yn 2021, cafodd llain fechan wrth ymyl y ffordd ei pharatoi a'i hau â hadau blodau gwylltion er mwyn annog peillwyr. Cafwyd pecynnau cychwyn blodau gwylltion gan Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer y ddau lecyn gwyrdd cymunedol a reolir gan y Cyngor.

Mae'r gwaith llaw a'r gwaith cynnal yn cael ei gyflawni gan y grŵp garddio lleol ar ran y Cyngor. Mae dau westy gwenyn wedi cael eu gosod yn y wardiau ac wedi'u llenwi ag eitemau naturiol sy'n denu gwenyn. Mae'r Cyngor wedi cydweithio gyda Pharcmon Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar eu cynllun i blannu 70 o goed yn y ward ar gyfer dathliadau eu 70 mlwyddiant.

## Cyngor Cymuned Betws

Yn 2023, cwblhaodd y Cyngor drawsnewidiad ym Mharc Betws. Dan y prosiect, a gafodd ei ariannu gan gynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, cafodd hen gyrtiau tennis eu trawsnewid i fod yn ardd natur. Mae llwybrau hygyrch yn cysylltu gwahanol gynefinoedd gan gynnwys gardd tyfu bwyd sy'n cael ei defnyddio gan ysgolion a'r coleg lleol, perllan gymunedol, gweirglodd blodau gwylltion eang a grëwyd drwy dorri llai ar y gwair a'i chyfoethogi â hadau o Erddi Cenedlaethol Cymru.

Mae llecynnau y gellir eu defnyddio ar gyfer cael picnic ac ystafell ddosbarth allanol, gwelyau synhwyraidd a llawer o goed. Mae dros 5,200m2 o gynefin bioamrywiol wedi'i greu, gan gynnwys 100m2 ar gyfer tyfu bwyd a 1,600m2 o weirgloddiau blodau gwylltion sydd â chyfoeth o rywogaethau. Mae gan yr ardd natur dros 100 o wirfoddolwyr sy'n helpu i gynnal yr ardal ac mae'n boblogaidd gyda thrigolion ac ymwelwyr.

## Cyngor Tref Cricieth

Ym mis Tachwedd 2020, derbyniodd y Cyngor Tref grant o £20,800 gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru i helpu i ariannu ei brosiect Cae Crwn - rhandir cymunedol a gardd glöyn byw ger canol y dref. Mae'r fenter yn bartneriaeth gydag Ysgol Gynradd Treferthyr, gwasanaethau ieuenctid, gwirfoddolwyr cymunedol Partneriaeth Natur Cyngor Gwynedd a Chyfeillion yr Ardd Natur.  Bu tua 150 o wirfoddolwyr yn ymwneud â'r gwaith cynllunio a gweithredu ac mae 50 o drigolion yn gweithio ar leiniau cymunedol, sydd hefyd yn cynnwys rhandir i'r ysgol. Mae hyn yn rhoi cyfle i weithio gyda phartneriaid yn y gymuned ac arbenigwyr ar fioamrywiaeth i helpu i

ddod â phobl ynghyd, hyrwyddo gwaith rhwng cenedlaethau, a chael hwyl wrth ddysgu am ac elwa o'n treftadaeth naturiol. Mae gan yr Ardd Gloÿnnod Byw ardaloedd adrodd straeon a byrddau gwybodaeth wedi'u peintio'n llachar, sydd yn eu hunain yn gynnyrch gwaith hynod greadigol ac yn darlunio tymhorau'r flwyddyn a hanes yr ardal. Mae mil o blanhigion gwyllt wedi'u plannu ar sail asesiad ac adroddiad bioamrywiaeth gan Gyngor Gwynedd. Mae'r disgyblion wedi adeiladu blychau adar a gwestai trychfilod i'w gosod yn y gerddi. Mae'r cydweithio cymunedol hwn wedi trawsnewid darn o dir diffaith - sydd nesaf at yr Ardd Natur - i fod yn adnodd cymunedol ffyniannus sy'n hyrwyddo llesiant a chreadigrwydd a ble gall grwpiau gyfarfod a dysgu sgiliau newydd. Llwyddodd y Cyngor Tref hefyd i sicrhau pecyn lleol gan Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer yr Ardd Natur dros Haf 2020.

Mae'r Cyngor Tref yn cefnogi gwaith Cricieth yn ei Blodau sydd ag aelodau gweithgar iawn sy'n plannu blodau a llysiau yn y dref. Drwy gydweithio a Chyngor Gwynedd, gosodwyd blychau plannu newydd mewn lleoliad canolog yn y dref ac mae planhigion bwytadwy'n cael eu tyfu yno'n flynyddol. Yn 2022, derbyniodd Cricieth yn ei Blodau Becyn Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer pecyn cychwyn bwyd i Orsaf Rheilffordd Cricieth, a chafodd hwnnw ei osod a'i blannu yn gynnar yn 2023. Mae'n cynnwys perlysiau gwyllt, llwyni a ffrwythau, planhigion mefus a blodau bwytadwy.  Gyda chymorth ariannol gan y Cyngor Tref, mae Cricieth yn ei Blodau hefyd wedi plannu perllan o goed gellyg ac afalau brodorol ar dir cymunedol a gyfrannwyd i'r dref.

Mae'r datblygiadau hyn yn cefnogi ymrwymiad y Cyngor Tref i wella bioamrywiaeth. Fel ymateb i Ran 1 - Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'r Cyngor Tref yn cyhoeddi Adroddiad ar y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau yn flynyddol i ddangos sut mae'n darparu

gwasanaethau yn y gymuned ac yn gweithio gyda phartneriaid ar wasanaethau a gweithgareddau sy'n cael effaith ar fioamrywiaeth.

## Cyngor Tref Y Gelli Gandryll

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol lleol ac eraill e.e. Grŵp Coetir Cymunedol y Gelli, Ymddiriedolaeth Cwningar y Gelli, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyngor Sir Powys, Llywodraeth Cymru, a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae wedi llunio Cynllun Rheoli Adferiad Natur y Gwningar, sy'n rhan o gynllun ehangach sy'n cyflawni gweithgareddau adfer natur mewn pum safle ar draws Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae pob un o'r safleoedd wedi'u dewis fel rhai sy'n bwysig i gymunedau lleol ac maent wedi'u datblygu drwy drafod gyda grwpiau a rhanddeiliaid lleol. Mae'r prosiect wedi'i ariannu gan Gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru, 2021/22, sy'n cynnwys creu Cynllun Rheoli, cefnogaeth gan Gydlynydd Partneriaethau Natur Lleol Bannau Brycheiniog a chyllid ar gyfer gwaith cyfalaf. Mae'r Cynllun yn cwmpasu ardaloedd amrywiol, gan gynnwys dôl y Gwningar, dwy ardal o goetir, yr Hen Reilffordd a Rhodfeydd y Beili, Nant Login a Thomen y Castell. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys:

- Glaswelltir niwtral heb ei wella
- Glaswelltir niwtral wedi'i led-wella
- Coridor Torlannol
- Ymylon cysgodol coetiroedd
- Llethr coediog

## Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn

Daeth y Cyngor yn gymuned sy'n caru Gwenyn yn swyddogol drwy gymryd rhan yng nghynllun Caru Gwenyn Llywodraeth Cymru. Cynigion nhw syniadau gwych ar gyfer gweithredu'n lleol, gan gynnwys sicrhau bod eu basgedi blodau a'u blychau plannu yn croesawu peillwyr, gweithio gyda 2 ysgol gynradd leol i gyflwyno collages blodau gwylltion a choed yn eu Sioe Arddio, cynnal sesiwn creu bomiau hadau i blant lleol a oedd yn cael mynd â'r bomiau hadau sy'n dda i wenyn gartref i'w plannu, a chyflwyno categorïau Gardd Ffrynt Orau sy'n Croesawu Gwenyn a Gardd Gefn Orau sy'n Croesawu Gwenyn yn eu cystadleuaeth Hirwaun a Phenderyn yn eu Blodau.

## Cyngor Tref Llandeilo

Yn 2021-22, llwyddodd y Cyngor i gael grant Natur ar gyfer blychau adar, coed a llecyn blodau gwylltion.

## Cyngor Cymuned Llandochau

Mae yma Grŵp Bioamrywiaeth a Phwyllgor Rhandiroedd.

Mae'r Cyngor yn cefnogi bioamrywiaeth yn ei safle rhandiroedd mawr sydd â 67 o leiniau. Mae awdit cynefinoedd wedi'i gynnal er mwyn nodi'r adar, trychfilod, mamaliaid ac ymlusgiaid a geir ar y safle, cyflwr blychau adar a gwenyn a phyllau, ac fe luniwyd map bioamrywiaeth o'r rhandiroedd. Mae'r Grŵp Bioamrywiaeth yn cadw gwybodaeth fanwl am amrywiaeth y bywyd gwyllt a'r cynefinoedd sy'n gynhenid i'r ardal a chaiff y cofnod hwn ei ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n gyfoes. Mae nifer o ganllawiau adnabod bywyd gwyllt ar gael i'r tenantiaid eu defnyddio.

Yn 2020, llwyddodd y Grŵp Bioamrywiaeth i gael cyllid gan fenter "Lleoedd lleol ar gyfer Natur" i greu gardd bywyd gwyllt. Mudiad Cadwch Gymru'n Daclus fu'n cyflwyno'r fenter hon a oedd yn cynnwys gosodiad o ddelltwaith ar gyfer tyfu nifer o blanhigion i annog bioamrywiaeth, mannau bwydo adar, blychau cynefinoedd a bylbiau i'w plannu yn yr hydref. Mae'r planhigion sy'n blodeuo wedi'u gosod ar safleoedd amrywiol ac maent yn cynnwys Eirlysiau, Clychau'r Gog, Blodau'r Gwynt a Brithegion. Yn ychwanegol at y bylbiau a ddarparwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus, defnyddiwyd cronfeydd y rhandiroedd i brynu 90 o fylbiau Cennin Pedr a chafodd y rhain eu plannu yn ystod hydref 2020 hefyd.

Mae gan y Cyngor gynllun blaengar ar gyfer safle newydd i randiroedd sydd wedi'i gymeradwyo i'w ddatblygu ar gyfer cynhyrchu bwyd yn lleol a defnydd cymunedol.

## Cyngor Cymuned Llantrisant

Mae arddangosfeydd blodau wedi'u newid o blanhigion blynyddol i rai lluosflwydd.  Mae'r rhain yn well i beillwyr, mae angen llai o ddŵr arnynt a byddant yn dychwelyd bob blwyddyn.

## Cyngor Cymuned Llanfrynach

Mae'r Cyngor wedi cytuno ar dempled adrodd ar fioamrywiaeth ac wedi ymrwymo i annog bioamrywiaeth pryd bynnag y bo modd, gan gynnwys:

- diogelu prif rywogaethau a chynefinoedd drwy reoli'r coed a'r tiroedd
- adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol cydnerth.  Mae'r darnau o dir a reolir ganddo (maes hamdden a lle chwarae a neuadd bentref Groesffordd) yn gynefin glaswelltir

- defnyddio datrysiadau sy'n seiliedig ar natur a thaclo rhywogaethau ymledol
- codi ymwybyddiaeth ynglŷn â bioamrywiaeth a'i bwysigrwydd yn ei gofnodion ac ar y wefan
- adrodd yn flynyddol ar ei ddyletswyddau dan Ran 1 - Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

## Cyngor Cymuned Llanengan

Mae gweirglodd blodau gwylltion wedi'i sefydlu ar Lain y Pentref, Mynytho, mewn cydweithrediad â Jo Porter, Ecolegydd lleol sy'n gweithio i Plantlife. Y Cyngor sy'n berchen ar 'Goed yr Allt', coedwig sy'n ymestyn i lawr at lan Afon Soch o Gae Crynwyr y Pentref. Mae nawdd wedi galluogi creu llwybr a mannau i eistedd a gosod blychau nythu i adar, yn arbennig tylluanod. Yn dilyn cyfarfod safle gyda Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd, bwriedir cynnal astudiaeth bioamrywiaeth.

## Cyngor Cymuned Offa

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal llecyn bach o goetir yn Offa ac mae wedi defnyddio gwasanaeth Cwmni Buddiannau Cymunedol, Woodworks. Yn ogystal â gwaith ar y tir, mae'r Cyngor yn gweithio i annog ysgolion a thrigolion i fod yn rhan o bethau ac mae'n cynnal sesiynau rheolaidd yn y coed, e.e. clirio llecynnau, ailblannu, gwneud blychau adar, a chynnal sesiynau llesiant.

## Cyngor Tref Pontypridd

Yn 2022, cafodd y Cyngor grant gan gynllun Llywodraeth Cymru - Lleoedd Lleol ar gyfer Natur i ddatblygu gardd gymunedol Meadow Street. Ymhlith y gwaith a gyflawnwyd, roedd gosod gardd synhwyraidd, gardd fawr i dyfu bwyd, perllan ffrwythau brodorol, gweirglodd blodau gwylltion a rhodfeydd yn y coed sydd oll

wedi'u cysylltu â llwybrau hygyrch. Roedd modd cael gwared ar Rywogaeth Ymledol Anfrodorol Clymog Japan o'r safle hefyd. O ganlyniad, mae yma gyfleuster cymunedol ble gall grwpiau gyfarfod, gall gwirfoddolwyr ddysgu sgiliau newydd ac mae'n fan cyfarfod i'r gymuned leol. Crëwyd dros 500m$^2$ o ofod tyfu a chafodd bioamrywiaeth ei adfer, ei wella a'i greu ar draws y safle. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r cynllun rhannu bwyd lleol i ddarparu ffrwythau a llysiau tymhorol. Mae'n gobeithio mynd ymlaen nawr i reoli'r ardal helaeth o goetir a phyllau er mwyn ehangu'r prosiect cyffrous hwn.

## Cyngor Cymuned Rhosddu

Mae'r Cyngor wedi gweithredu ambell i brosiect:

- Cais llwyddiannus ar gyfer dau brosiect Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Mae un wedi galluogi plannu llwyni ffrwythau mewn parc cyhoeddus. Roedd yr ail brosiect ar ran Bwydydd Anhygoel Wrecsam ar gyfer Tŷ Gwydr a phlanhigion er mwyn tyfu cynnyrch fyddai ar gael am ddim i grwpiau lleol.

- Plannu coed yn y gymuned.

## Solfach Community Council

Yn 2021, plannodd y Cyngor 500 o goed yn y pentref a'r cyffiniau.

# Caffael

## Cyngor Cymuned Llanfrynach

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i annog bioamrywiaeth pryd bynnag y bo modd ac mae wedi ymgorffori bioamrywiaeth yn ei brosesau gwneud penderfyniadau a chaffael.

## Cyngor Cymuned Offa

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i:

- nod o fod yn ddi-blastig
- defnyddio deunyddiau ailgylchadwy
- cydweithio gyda'r gymuned
- canfod y lleoedd gorau i gaffael cyfarpar chwarae
- hyrwyddo ac annog goleuadau stryd ynni isel

# Trafnidiaeth

## Cyngor Cymuned Llanengan

Yn ogystal â mynnu llwybrau seiclo diogel rhwng Pwllheli ac Abersoch yn Ymgynghoriad y Cynllun Teithio Llesol, mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau llwybrau cerdded diogel rhwng pentref Abersoch a Sarn Bach. Mae'r Cyngor wedi prynu tair mainc solar gyda chymorth Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn. Bydd dwy o'r rhain yn cofnodi'r tywydd a'r defnydd ohonynt, yn ogystal â gwefru ffonau symudol, sgwteri ac e-feiciau.

### Cyngor Cymuned Llantrisant

Mae'r Cyngor yn defnyddio fan gyfan gwbl drydan i staff cynnal a chadw weithio o gwmpas y gymuned.

### Cyngor Cymuned Offa

Mae'r Cyngor yn ystyried ffyrdd o leihau ei ôl-troed allyriadau drwy gerdded, seiclo a rhannu ceir.

### Cyngor Cymuned Solfach

Mae llwybr i'r holl genedlaethau wedi'i adeiladu i gysylltu Solfach Uchaf ac Isaf gan alluogi cerddwyr llai abl, defnyddwyr cadeiriau olwyn a choetsys i fynd o un pen o'r pentref i'r llall yn rhwydd heb orfod defnyddio cerbyd.

## Dim Gwastraff

### Cyngor Tref Cricieth

Mae cyfarfodydd y Cyngor Tref yn ddi-bapur, gyda dewis i ymuno drwy Zoom. Caiff yr holl bapur a ddefnyddir ei ailgylchu.

### Llanfrynach

Argraffu ar ddwy ochr ac ar bapur wedi'i ailgylchu, a hefyd yn ailgylchu papur gwastraff.

## Llangynidr

Mae gan y Cyngor bolisi peidio ag argraffu os nad oes rhaid – a bydd unrhyw ddeunydd a argreffir ar ddwy ochr papur wedi'i ailgylchu. Caiff yr holl bapur a ddefnyddir ei ailgylchu.

## Cyngor Cymuned Pennard

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r gymuned i leihau gwastraff. Mae cyfarfodydd y Cyngor yn ddi-bapur gyda dewis i ymuno drwy Zoom.

## Cyngor Cymuned Solfach

Mae cyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn ddi-bapur, gyda dewis i ymuno drwy Zoom.